## CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio nos Fercher y 7fed o Ionawr 2026 am 8.00pm yn Neuadd Llanwinio.

**PRESENNOL**: Cynghowyr Sarah Pask (Cadeirydd), Huw James, Iori Saer, Dorian Lewis, Wyn Evans, Elgan Williams, Christopher Smoothy & Y Cynghorydd Sir Jean Lewis

**YMDDIHEURIADAU**: Dim

**CYMHERWYD Y COFNODION GAN Y CLERC**: Liza Jones

**2: COFNODION**: Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed o Dachwedd 2025 wedi ei dosbarthu cyn y cyfarfod, fe'u derbyniwyd a'u cofnodi fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDD:** Wyn Evans – Eitem 5 – Y Cardi Bach

**4: MATERION YN CODI:**
Roedd y Cyngor Sir wedi rhoi offer diogelwch o amgylch cwlfert agor ger Blanffynnon ond roedd yr offer yma wedi cael difrod ac roedd agen gwaith atgyweirio brys yno i atal difrod a dirywiad pellach. Byddai'r Cynghorydd Sir Jean Lewis yn gofyn am ddiweddariad.
Roedd yr arolwg diogelwch wedi ei gwblhau ar y Parc ond nid oedd yr adroddiad wedi cael ei dderbyn.
Yn dilyn cyfrafod gyda'r Cyngor Sir ar y 26ain o Dachwedd ger Post House ynghlyn â charthu yr Afon Sien roedd y Cynghorydd Sir Jean Lewis yn disgwyl am ymateb wrth Cyfoeth Natiriol Cymru.
Roedd y clerc wedi ebostio'r Cyfreithwir ar nifer o achlysuron ond heb cael ymateb parthed cofrestru'r tir ac fekly roedd wedi trio ffonio. Wrth wneud hyn darganfyddodd fod Peter Lyn & Partners wedi cymryd y cwmni drosodd ond roedd Mr Edward Harris yn awr yn gweithio fel cynghorydd iddynt. Mewn trafodaewth ffôn gyda Mr Edward Harris ar y 1af o Ragfyr cadanhawodd y byddai'r gwaith cofrestru yn cael ei gyflwyno ym Mis Ionawr.
Roedd y clawdd o eiddo y Cyngor Bro ger Pwllrhedyn wedi cael ei dorri ac byddai anfoneb i ddilyn.

**5: GOHEBIAETH:**

**A** – Roedd Cymdeithas Cymuned Llanwinio wedi ysgrifennu yn gifyn am gymorth ariannol ar gyfer costau rhedeg Neuadd Llanwinio gan gynnwys cost yswiriant a drydan. Cytunwyd i roi £2500.00.
**B** – Roedd Y Cardi Bach wedi danfo ei apêl blynyddol. Cytunwyd i roi £250.00.
**C** – Roedd Natwest wedi ysgrifenny yn nodi lleihad yn y cyfradd Llôg.
**CH** – Derbyniwyd llythyr wrth Llywodraeth Cymru yn nodi mae'r Swm Priodol dan Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant arian adran 137 ar gyfer 2026-267 oedd £11.60 i bob etholwr.

**6: CYLLIDEB YN CYNNWYS PRAESEPT A CYFLOG Y CLERC**
Dosbarthwyd adroddiad cyllideb v gwariant hyd 31/12/25 roedd y clerc wedi paratoi ac fe'i drafodwyd yn fanwl.
Roedd y clerc wedi paratoi adroddiad arfaethedig ar gyfer 2026-27. Trafodwyd pob eitem a cytunwyd newidiadau. Derbyniwyd y Gyllideb wedi'i ddiwygio ynghyd a chyflog y clerc yn aros yr un fath a llynnedd ac y praesept yn arod yn £6000 y flwyddyn.

**7: ADDEWID CWRTEISI A PHARCH**
**Darllenwyd y datganiadau Cwrteisi a Pharch a cytunwyd pob un gan bawb felly fe mabwysiadwyd yr Addewid gan y Cyngor Cymuned.**

**8: DERBYNIADAU:**
Llôg - £14.18
Rhent – Plasparcau - £143.85
Tyrbein gwynt – Aura - £1231.26
Tyrbein gwynt – Rhydgoch - £3794.92
Praesept - £2000.00

**9: BILIAU:**
Banc Lloyds - £4.25 a £4.67 (talwyd d/u)

**10: ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Busnes | £4,364.11 |
| Cyfrif Trysorydd | £18,997.93 |
| **Cyfanswm o** | **£23,362.04** |

**11: CYNLLUNIO:** Dim

**12: Unrhyw fater arall:**
Diweddarodd y Cyngorydd Sir Jean Lewis byddaui'r heol o Fferm Lion i Gapel Moria yn cael ei atgyweirio y mis yma.
Codwyd pryder am gyflwr yr heol o Fferm Bwmper i'r Capel ac o'r Capel i Maesylan ac hefyd roedd darn rhwng Passby a Blaenffynnon a oedd angen atfgyweirio.
Roedd y bin halen a oedd ger Rhiw Elwyn wedi cael ei symud, o bosib I Passby (gan fod bin yno nawr lle nad oedd yn flaenorol). Roedd angen symud y bin halen yn Passby i'r cilfan a'i lanw ac oedd angen bin halen newydd ger Rhiw Elwyn.
Ni oedd yr achos o waredu gwastraff yn anghyfreithlon ger Pwlltheyn wedi cael ei gasglu er ei fod wedi cael ei adrodd i'r Cyngor Sir ar nifer o achlysuron. Byddai'r CYnghorydd Sir yn gwirio ar hyn.
Roedd y bont yn Cwmfelinmynach wedi cael ei ddifrodi ac roedd y malurion wedi casglu dan y bont gan olygu gorlifodd yr afon i mewn i adeiladau cyfagos. Byddai gwaith ymchwil yn cael ei wneud ynghlyn a chyfrifoldeb pwyoedd i gynnal a chadw ac atgyweirio'r bont.
Gofynwyd i'r clerc ymchwiol am unrhyw grantiau ar gyfer gwres ffynnhonnell aer.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher y 4ydd o Fawrth 2026 am 8:00pm yn Neuadd Gymunedol Llanwinio.**